# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-09-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 14 Mawrth 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgor

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1 : Ymddiheuriadau am absenoldeb: Christine Gwyther

## Eitem 2 : Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-08-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2006 yn y cyfarfod nesaf.

## Eitem 3 : Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Mewn cysylltiad ag adolygiad y Pwyllgor o'r gwaith o graffu'n dechnegol ar ddeddfwriaeth, hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai Sandy Mewies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, ac Anna Daniel, cynrychiolydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel, yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 4 Ebrill 2006 i drafod a fydd yn bosibl edrych ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd ar ôl 2007. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd y byddai Jenny Randerson AC yn bresennol yn y cyfarfod ar 21 Mawrth 2006. Gan nad oedd unrhyw bwyntiau eraill i'w hadrodd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4 : Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1234 – The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006

### LC1235 – Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiadau i'r Pwyllgor.

4.2 Mewn cysylltiad ag LC1234, nododd Mr Griffiths, gan fod y Gorchymyn wedi'i wneud o dan y Weithdrefn Weithredol, y byddai'n briodol ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn pam na wnaed y Gorchymyn yn ddwyieithog.

4.3 Nododd yr Aelodau, er ei bod yn ymddangos y bu digon o rybudd y byddai'r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad, awgryma'r ffaith y gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol y bu rhywfaint o gyfyngiad amser. Holodd yr Aelodau beth oedd y rheswm dros yr anghysondeb hwn.

4.4 Hysbysodd Mr Griffiths y Pwyllgor y bu'r oedi o ran gweithredu'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Glwy'r Traed a'r Genau yn y Deyrnas Gyfunol yn destun pryder i'r Comisiwn Ewropeaidd, ac felly cychwynnwyd achos yn Llys Ewrop. Nododd Mr Griffiths mai dyma'r rheswm dros wneud y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol. Pwysleisiwyd y dylai'r ddeddfwiriaeth fod wedi'i llunio'n ddwyieithog er ei bod wedi'i gwneud o dan y Weithdrefn Weithredol. Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog i'w hysbysu o bryderon yr Aelodau. Cam i'w gymryd: Cadeirydd/Clerc

4.5 Mewn cysylltiad ag LC1235, eglurodd Mr Griffiths fod y Rheoliadau'n cynnwys gwallau a fyddai fel arfer yn cael eu diwygio drwy Femorandwm Cywiriadau ond gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud eisoes bydd angen cywiro'r gwallau hyn drwy ddeddfwriaeth ddiwygio. Cytunwyd y dylid canfod bwriad y Gweinidog.

4.6 Ar wahân i hyn, cytunodd yr Aelodau â'r adroddiadau drafft.

**4.7 LC1236 – Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006**

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.8 Hysbysodd Ms Jackson y Pwyllgor y nodwyd dau bwynt i'w cywiro ac y byddai'r rhain fel arfer yn cael eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. Fodd bynnag, gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud eisoes, bydd angen cywiro'r gwallau hyn drwy ddeddfwriaeth ddiwygio a dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

4.9 Gofynnwyd beth y gellir ei wneud i sicrhau yr ymdrinnir â'r pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor. Argymhellodd Mr Griffiths y dylid anfon llythyrau at y Gweinidogion yn nodi bod angen gwneud y cywiriadau ac y dylid gosod adroddiadau'r Pwyllgor pan fydd y Gweinidogion yn ymateb i'r llythyrau. Cytunodd yr Aelodau â hyn. Cam i'w gymryd: Cadeirydd/Cynghorwyr Cyfreithiol/Clerc

4.5 Mewn cysylltiad â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1244 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2006**

**LC1245 – Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006**

**LC1246 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pwer i Fasnachu) (Cymru) 2006**

**LC1247 – Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau**

**Safonau) 2006**

**LC1248 – Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Cyfansoddiad) 2006**

**4.11 LC1249 – Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2006 ac LC1250 - Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2006**

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiadau i'r Pwyllgor.

4.12 Mewn cysylltiad â'r ddau adroddiad, gan nodi na chafodd ei egluro, hysbysodd Mr Griffiths yr Aelodau mai ystyr yr acronym 'LSCB' yw 'Local Safeguarding Children Board'.

4.13 O ran pam y gwnaed y Rheoliadau ar wahân, nododd Mr Griffiths fod angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad ag LC1250 ond nid ar gyfer LC1249.

4.14 Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.15 LC1251 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.16 Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

## Eitem 5 :

5.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn cysylltiad ag LC1214 – Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Cymru) (Diwygio) 2006.

## Camau i'w cymryd

5.2 Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog i holi pam na wnaed The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006 (LC1234) yn ddwyieithog. Cam i'w gymryd: Cadeirydd/Clerc

5.3 Cytunodd y Cadeirydd i hysbysu'r Gweinidogion ynglyn â'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiadau drafft mewn cysylltiad ag LC1234 – The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006, LC1235 – Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006 ac LC1236 – Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor o ran pryd a sut y caiff y cywiriadau eu gwneud.

Cam i'w gymryd: Cadeirydd/Cynghorwyr Cyfreithiol/Clerc

## Eitem 6 : Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Rhoddodd Mr Griffiths y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ymholiad a wnaed yn ystod y cyfarfod ar 31 Ionawr 2006 mewn cysylltiad ag LC1211 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006. Roedd yr ymholiad yn ymwneud â darparu gwybodaeth am yswiriant indemniad i Aelodau'r Cynulliad. Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr Aelodau yr ymdriniwyd â'r cwestiwn hwn fel rhan o'r broses wahanu a trafodir papur yn delio ag yswiriant yn cynnwys darparu indemniad i Aelodau gan y prif Fwrdd sy'n delio â'r gwahanu. Gallai'r papur gael ei ystyried gan Bwyllgor y Ty i ystyried y mathau o yswiriant a'r amseru.

6.2 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn y Senedd ar 21 Mawrth 2006.